



Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion Ysgrifennydd Mygedol

Mae Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn ceisio apwyntio Ysgrifennydd Mygedol, i olynu'r Dr Lynn Williams sydd wedi bod yn y rôl ers 2015 ac a fydd yn rhoi'r gorau i'w swydd yn Ngwanwyn 2019.

Sefydlwyd y Gymdeithas ym 1751 ac fe'i lleolir yn Llundain. Mae'n ceisio hyrwyddo ymarfer a datblygiad llenyddiaeth, y dyniaethau a'r gwyddorau sydd o diddordeb arbennig i Gymru a'i phobl ac mae'n cyfrannu'n helaeth i lawer agwedd ar fywyd diwylliedig Cymreig. Mae'r Gymdeithas yn Elusen Gofrestredig wedi ei rheoli gan Lywydd a Chyngor o ymddiriedolwyr. Derbyniodd Siarter Frenhinol ym 1951. Ceir mwy o wybodaeth am y Gymdeithas yn: www.cymmrodorion.org.

Yr Ysgrifennydd Mygedol yw un o brif swyddogion gweithredol y Gymdeithas ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod gwaith gweinyddol y Gymdeithas yn cael ei gyflawni'n unol â'i chyfrifoldebau statudol a chyfreithiol eraill ac yn ôl dymuniadau'r Cyngor. Mae'r Ysgrifennydd Mygedol yn gweithio'n agos â'r Llywydd a'r swyddogion eraill (Cadeirydd y Cyngor, y Trysorydd Mygedol, y Golygydd Mygedol a'r Ysgrifennydd Digwyddiadau) ar faterion strategol sy'n berthynol i'r Gymdeithas.

Mae'r rôl yn ymwneud, ymysg pethau eraill, â:

- gweithredu fel ysgrifennydd i'r Cyngor a phwyllgorau eraill, yn ogystal â Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas, a bod yn gyfrifol am agweddau eraill o lywodraethu'r Gymdeithas;
- delio â gohebiaeth gydag amrediad o unigolion a sefydliadau a chydag ymholiadau gan aelodau'r Gymdeithas a'r cyhoedd;
- mewn ymgynghoriaeth â swyddogion eraill, i ddarparu gwasanaethau gweithredol a gweinyddol o ddydd i ddydd i'r Gymdeithas.

Mae'r Ysgrifennydd Mygedol yn aelod *ex officio* o Gyngor y Gymdeithas ac yn un o ymddiriedolwyr y Gymdeithas. Dylai'r rôl apelio at bobl sy'n dymuno ehangu gwneud cyfraniad i fywyd diwylliedig Cymru ac i weithio mewn tîm gyda swyddogion gweithredol eraill. Bydd angen fynychu cyfarfodydd yn Llundain. Yn unol ag ymrwymiad y Gymdeithas i'r iaith Gymraeg, byddai o fantais i gael gwybodaeth o'r iaith ond nid yw hyn yn hanfodol. Byddai profiad o weinyddiaeth a chynnal pwyllgorau yn ddymunol.

Mae gweithdrefnau sefydledig yn eu lle ar gyfer y tasgau yn y rôl a bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus y fantais o gael trosglwyddiad gan ddeiliad presennol y swydd.

Gwybodaeth ychwnaegol

Gellir cael gwybodaeth ychwanegol am y rôl oddi wrth yr Ysgrifennydd Mygedol presennol, Lynn Williams (secretary@cymmrodorion.org). Dylid anfon mynegiant o ddiddordeb, gan amlinellu profiad perthnasol a'r rhesymau dros ddymuno cael eich ystyried am y rôl, at Gadeirydd y Cyngor, Ceridwen Roberts (chair@cymmrodorion.org), dim hwyrach na 31 Rhagfyr 2018, gyda chyfweliad yn gynnar yn Ionawr 2019.